# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 11 Medi 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Peter Evans, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Rhys Hughes, Joe Welch, Cefyn Williams a Cheryl Williams

Aelodau Cyfetholedig – Gill Greenland, Deborah Houghton, Dawn Marjoram a Gareth Williams yn bresennol ar gyfer Eitem 5 ar y Rhaglen.

Aelodau'r Cabinet - roedd y Cynghorwyr Hugh Evans ac Eryl Williams yn bresennol ar gyfer eitemau penodol ar y rhaglen yn ymwneud â'u portffolios unigol

Arsylwi - Y Cynghorydd Martyn Holland

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd ac Uchelgais Gymunedol (RM), Penaethiaid Gwasanaeth: Cefnogaeth Addysg a Chwsmeriaid (JW), Addysg (KE), Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (SP); Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (GO); Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (EJ); Cydlynydd Archwilio (RE) a'r Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Win Mullen-James, Bob Murray a David Smith (Aelod Arweiniol dros Barth y Cyhoedd) ynghyd â'r Aelod Cyfetholedig Nicola Lewis

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Rhys Hughes, Joe Welch, Cefyn Williams a'r Aelodau Cyfetholedig Gill Greenland, Debra Houghton a Dawn Marjoram gysylltiad personol ag Eitem 5 ar y Rhaglen

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod olaf y pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2014.

**Cywirdeb** – roedd aelodau cyfetholedig wedi cael eu gadael allan o'r rhestr presenoldeb a dylai gynnwys Gill Greeland, Debra Houghton, Nicola Lewis, Dawn Marjoram a Gareth Williams fel aelodau presennol.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid, yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2014 fel cofnod cywir.*

## 5 POLISI CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL

Cyflwynodd y Pennaeth Cefnogaeth Addysg a Chwsmeriaid (HCES) adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn amlinellu cynigion ar gyfer y polisi diwygiedig ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ynghyd â'r broses ymgynghori a'r amserlen ar gyfer gweithredu. Ymddiheurodd am gamgymeriad yn yr adroddiad yn cynghori nad oedd wedi bod yn bosibl i ymgynghori â disgyblion Meithrin newydd a gynlluniwyd ar gyfer mis Medi 2015. Darparwyd ychydig o gefndir i'r adroddiad ac eglurwyd nad oedd unrhyw gynnig i newid y darpariaethau presennol ar gyfer cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion ffydd o fewn y polisi diwygiedig. Tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at lythyr (a ddosbarthwyd yn flaenorol) oddi wrth Esgobaeth Wrecsam ynglŷn â'r ymgynghoriad a'r newidiadau arfaethedig.

Ystyriodd yr Aelodau (1) ganlyniad gorfodi'r polisi newydd i gael gwared ar anghysondebau hanesyddol yn y broses gymhwysedd, a (2) gweithredu mannau codi canolog fel y nodir yn y polisi diwygiedig. Nodwyd y byddai'r cynigion yn debygol o gynhyrchu arbedion o tua £272k a £30k yn y sectorau uwchradd a chynradd yn y drefn honno. Cytunodd y Swyddogion gydag adborth ymgynghori rhagarweiniol bod yr aflonyddwch a achosir wrth weithredu mannau codi ar gyfer y sector cynradd fod yn fwy na'r arbedion posibl i'w gwneud, ond bod gweithredu ar gyfer y sector uwchradd yn dderbyniol. Roedd nifer fawr o ymatebion yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwedodd yr HCES am anomaleddau hanesyddol a'r rhai a fyddai'n cael eu heffeithio gan orfodaeth lem o'r polisi. O ganlyniad, bu ceisiadau i gyfyngu ar y dynodiad Cyfrwng Cymraeg i ysgolion categori 1 yn hytrach na chategori 1 a 2 a chafodd yr aelodau eu hysbysu o oblygiadau newid mor fawr mewn polisi a oedd yn cynnwys effaith niweidiol ar niferoedd ar y gofrestr yn y dyfodol a chostau cludiant. Darparwyd manylion am y cynllun teithio rhatach ar gyfer y rhai nad oeddent yn gymwys i gael cludiant am ddim hefyd.

Canolbwyntiodd prif rannau'r drafodaeth ar y canlynol -

- tra'n cydnabod nad oes argymhellion/ canllawiau cenedlaethol ar y broses ymgynghori a nodi'r amserlen dynn yn yr achos hwn, mynegodd yr aelodau bryderon bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gyhoeddi yn ystod cyfnod gwyliau haf yr ysgol. Nododd yr Aelodau hefyd yr oedi byr a fu gyda dosbarthu'r ddogfen ymgynghori i swyddogion Esgobaeth Llanelwy, y camgymeriad wrth beidio â'i ddosbarthu'n gynharach yn y broses i aelodau addysg cyfetholedig y pwyllgorau archwilio, a bod diffyg argaeledd cyfeiriadau rhieni plant ysgolion meithrin wedi golygu na chafodd copïau eu hanfon atynt. Amlygwyd hefyd na ysgrifennwyd at rieni plant ysgol gynradd nad oeddent yn gymwys ar hyn o bryd i gael cludiant ysgol, ond efallai yr effeithir ar eu hawl i ddarpariaeth yn y sector uwchradd yn y dyfodol o ganlyniad i'r newidiadau. Fodd bynnag, gan fod y ddogfen wedi bod ar gael yn rhwydd ar wefan y Cyngor ac o ystyried y rhestr gynhwysfawr o ymgyngoreion a'r ffaith yr ysgrifennwyd yn unigol at rieni sy'n derbyn cludiant i'r ysgol ar hyn o bryd, roedd yr aelodau o'r farn bod yr awdurdod wedi gwneud ymdrech resymol i godi ymwybyddiaeth o'r polisi drafft diwygiedig a'r ymgynghoriad yn ei gylch. Teimlai'r pwyllgor na fyddai fawr o

rinwedd mewn ymestyn y cyfnod ymgynghori gan ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw faterion newydd yn dod i'r amlwg o ganlyniad.

- Roedd aelodau o'r farn y dylai gwybodaeth fod ar gael i rieni disgyblion Blwyddyn 6 yn llawer cynt nag ar hyn o bryd o ran pa ysgol uwchradd oedd eu 'hysgol addas agosaf', yn ddelfrydol pan oedd y plant ym Mlwyddyn 5. Roedd y pwyllgor yn cefnogi cynlluniau i ddarparu map rhyngweithiol ar wefan y Cyngor ar gyfer y diben hwn y gallai rhieni gael mynediad ato.
- Cytunodd y pwyllgor y dylai cludiant am ddim i'r ysgol yn y dyfodol gael ei ddarparu ar gyfer pob disgybl mewn addysg uwchradd o fan codi dynodedig at eu 'hysgol addas agosaf' gyda disgyblion a oedd ar hyn o bryd yn mynychu ysgol nad oedd yn cael ei hystyried i fod yr 'ysgol addas agosaf' yn cael cludiant am ddim hyd nes eu bod yn rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol honno. Cydnabuwyd y byddai'r cyfnod pontio yn para nifer o flynyddoedd ac yn arwain at wahaniaeth yn ystod y cyfnod hwnnw
- cytunwyd y dylai teithio rhatach fod ar gael mewn mannau codi dynodedig ar gyfer disgyblion newydd sy'n dewis peidio â mynychu eu 'hysgol addas agosaf' yn amodol ar fod lleoedd dros ben ar gael ar gludiant ysgol a gomisiynwyd yn barod. Gofynnodd yr Aelodau am roi cymaint o rybudd ag y bo modd i dynnu consesiwn yn ôl pe na fyddai seddau ar gael wedi hynny, a nodwyd y bwriad i gyfyngu consesiynau i gyfnod o 12 mis gyda thâl rhesymol i dalu am gostau gweinyddol. Nodwyd hefyd nad oedd consesiynau cael eu darparu ar wasanaethau bysus cyhoeddus
- Nododd yr aelodau'r goblygiadau o newid categoreiddio ysgolion ac roeddent o'r farn y dylai aros fel y mae ar hyn o bryd, gydag ysgolion nad ydynt yng Nghategori 1 yn cael eu cefnogi i wella a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a'r Gymraeg i symud ar hyd y continwwm iaith.
- Pwysleisiodd y pwyllgor yr angen am gynnal asesiadau risg cadarn ar gyfer pob man codi a llwybrau peryglus i sicrhau bod llwybr diogel yn cael ei gynnal ar bob adeg a darparodd y HCES sicrwydd y byddai asesiadau risg yn cael eu gwneud yn unol â'r Mesur Teithio Dysgwyr
- o ystyried cymhlethdodau'r mater cytunodd y HCES i siarad ag aelodau y tu allan i'r cyfarfod ynghylch achosion unigol.

Yn ystod trafodaeth gyffredinol trafododd yr aelodau gyda swyddogion ymddygiad plant ysgol wrth deithio i ac o'r ysgol, yn enwedig y rhai sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus, a chydnabuwyd cyfrifoldebau ysgolion yn hynny o beth. Amlygodd yr Aelod Cyfetholedig Dawn Marjoram y gwasanaeth rhagorol a ddarperir gan y Cyngor wrth gludo'r disgyblion hynny sydd ag anghenion arbennig, ond gofynnodd a fyddai modd i swyddogion edrych i mewn i'r hyd amseroedd teithio er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod mor fyr ag y bo modd. Gofynnodd hefyd, lle y bo'n briodol, i gynnal dadansoddiad mantais cost ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i ystyried costau preswyl a theithiau tacsi.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, argymell i'r Cabinet o Medi 2015 ymlaen -*

*(a) dylid darparu cludiant am ddim i'r ysgol yn y dyfodol ar gyfer pob disgybl mewn addysg uwchradd o fan codi dynodedig at eu 'hysgol addas agosaf' gyda disgyblion a oedd ar hyn o bryd yn mynychu ysgol nad oedd yn cael ei*

*hystyried i fod yr 'ysgol addas agosaf' yn cael cludiant am ddim hyd nes eu bod yn rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol honno;*

(b) *dylai teithio rhatach fod ar gael mewn mannau codi dynodedig ar gyfer disgyblion newydd sy'n dewis peidio â mynychu eu 'hysgol addas agosaf' yn amodol ar fod lleoedd dros ben ar gael ar gludiant ysgol a gomisiynwyd yn barod, ac*

(c) *er eglurder dylid newid enw'r polisi i'r 'Polisi Cymhwysedd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol'.*

Ar y pwynt hwn (10.50 am) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 6 ADOLYGIAD CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn manylu ar y cyd-destun a chanfyddiadau'r adolygiad o Gynlluniau Tref ac Ardal a'r camau gweithredu a gynigwyd o ganlyniad. Roedd yn argymell Cynlluniau Tref ac Ardal fel modd o ddarparu ymagwedd gytbwys at ddatblygu cymunedol a derbyn canfyddiadau'r adolygiad a'r camau gweithredu i symud ymlaen. Diolchodd hefyd i'r Cefnogwyr Trefi am eu gwaith a thynnodd sylw at bwysigrwydd ymgysylltu lleol o fewn y broses.

Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (CDECA) ar yr adolygiad a oedd wedi dod i'r casgliad, er bod y bwriadau strategol wedi eu diwallu bod diffyg eglurder a chysondeb o ran datblygu a darparu'r Cynlluniau Tref ac Ardal. Roedd hefyd yn anodd sefydlu gwerth am arian gan nad oedd Cynlluniau Tref ac Ardal ar hyn o bryd yn darparu gwybodaeth glir ar y manteision a ragwelir, na sut y byddai effaith yn cael ei fesur. Soniodd am ddatblygu cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar bum maes allweddol er mwyn gwella trefniadau yn y dyfodol a rhoddodd y newyddion diweddaraf i'r aelodau ar y cynnydd hyd yma.

Ar y cyfan, roedd y pwyllgor yn teimlo mai'r Cynlluniau Tref ac Ardal oedd y mecanwaith mwyaf addas i wireddu dyhead y Cyngor o fod yn agos at y gymuned. Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i gael manylion y dulliau gweithredu a gymerwyd i ddatblygu Cynlluniau yn eu meysydd penodol a sut roedd y Cynlluniau hynny'n cael eu darparu. Roedd yn amlwg bod er bod rhai llwyddiannau roedd problemau hefyd, fel y diffyg gweithredu gan rai gwasanaethau wrth symud prosiectau yn eu blaen a buddsoddi mewn Cynlluniau Tref ac Ardal. Er bod y datblygiad y Cynlluniau Tref ac Ardal wedi bod yn broses adeiladol, roedd cyflymder eu darparu yn ymddangos i fod yn hynod o araf a chyfyngedig gan achosi rhwystredigaeth enfawr i'r rhai a oedd yn ceisio symud ymlaen â phrosiectau penodol. Teimlwyd bod peth dryswch o hyd ynghylch Cynlluniau Tref ac Ardal a bod angen eglurder o ran cyfrifoldebau a gweithredu. Dywedodd yr Arweinydd a'r CDECA bod bellach angen alinio Cynlluniau Tref ac Ardal â strategaethau eraill, megis y Strategaeth Uchelgais Economaidd Gymunedol, Strategaeth Canol y Dref a'r Strategaeth Dwristiaeth i sicrhau eu bod yn ategu ei gilydd ac nad oeddent yn dyblygu nac yn tynnu oddi wrth ei gilydd. Er mwyn hwyluso darparu'r Cynlluniau, roedd angen ymgymryd â gwaith i ymgorffori blaenoriaethau pob Cynllun yng Nghynlluniau Gwasanaeth y

Cyngor. Byddai hyn wedyn yn gweithredu fel catalydd i gychwyn y gwaith o'u cyflawni. Yr amcan tymor hir oedd y byddai'r cynlluniau yn cael eu defnyddio fel dogfennau cyfeirio y gellid eu defnyddio fel sail ar gyfer manteisio ar ffrydiau cyllid allanol yn y dyfodol. Roedd angen gwaith pellach hefyd wrth asesu Cynlluniau Tref ac Ardal presennol i ddangos gwerth am arian a’r manteision cymunedol. Roedd y Datganiad Polisi arfaethedig yn darparu mwy o eglurder ar rôl a phwrpas Cynlluniau Tref ac Ardal.

Pwysleisiodd yr Aelodau yr angen am i’r Cynlluniau ddwyn ffrwyth yn gynnar er mwyn gwella canlyniadau i breswylwyr a chwrdd â'u disgwyliadau o’r Cyngor. Gofynnwyd iddynt anfon eu sylwadau ar y Datganiad Polisi drafft i'r CDECA cyn gynted â phosibl.

***PENDERFYNWYD –****yn amodol ar y sylwadau uchod* ***-***

*(a)* *cymeradwyo canfyddiadau'r adolygiad i’r Cynlluniau Tref ac Ardal a’r Cynllun Gweithredu cysylltiedig, a*

*(b)* *gofyn am gymryd camau ar unwaith i ddatblygu agwedd i ddarparu’r Cynlluniau er mwyn galluogi preswylwyr i weld canlyniadau'r gwaith.*

**7 CYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL AR GYFER TAI AMLBRESWYLIAETH**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn am farn yr aelodau ar ail-ddynodi Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlbreswyliaeth (HMO) o fewn Y Rhyl cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Darparwyd cyd-destun yr ail-ddynodi a’r ddeddfwriaeth sy’n llywodraethu HMOs ynghyd â'r meini prawf sy’n rhaid eu bodloni er mwyn dynodi cynllun trwyddedu ychwanegol. Eglurodd y swyddogion y rhesymau y tu ôl i'r argymhelliad i ymestyn y cynllun i gynnwys mwy o fathau o HMO yn y Rhyl yn dilyn proses arolygu ac asesu. Nid oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau’r defnydd o’r adnoddau presennol i weithredu'r cynllun trwyddedu ychwanegol y tu allan i'r Rhyl. Roedd Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl yn gefnogol i'r cynllun, a hoffent weld mwy o adnoddau yn cael eu hymrwymo a dull gorfodi llymach. Soniwyd am effaith ganlyniadol tai gwael ar deuluoedd a gwasanaethau'r cyngor ac amlygodd y swyddogion y cydweithio rhwng adrannau'r cyngor yn hyn o beth.

Roedd y pwyllgor yn gefnogol i ail-ddynodi’r cynllun trwyddedu ychwanegol, yn unol â Deddf Tai 2004, a’i ymestyn i gynnwys mathau eraill o eiddo HMO fel y manylwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Nodwyd nad oedd y meini prawf i ymestyn y cynllun y tu hwnt i’r Rhyl wedi eu bodloni a gofynnodd yr aelodau am sicrwydd na fyddai ehangu'r cynllun yn y Rhyl ar draul rhannau eraill o'r sir, h.y. Corwen a Llangollen. Dywedodd y Swyddogion y byddai problemau mewn perthynas â HMOs a gafwyd mewn ardaloedd eraill yn y sir yn cael eu trin trwy ddefnyddio pwerau gorfodaeth yr awdurdod lleol o dan ddeddfwriaeth wahanol a phe bai tystiolaeth ddigonol o eiddo HMO problemus yn dod i'r amlwg mewn ardaloedd eraill, gellid ail-asesu’r sefyllfa. Mewn ymateb i gwestiynau manylodd y swyddogion ar y broses ymgeisio ac arolygu ar gyfer HMOs ynghyd â phwerau gorfodaeth cyffredinol a’r camau

gweithredu sydd ar gael i'r awdurdod. Hefyd amlinellodd y Swyddogion y gweithdrefnau y gellid eu defnyddio mewn achosion o'r fath er mwyn lliniaru'r risg o’r tenantiaid yr effeithir arnynt ddod yn ddigartref. Yn olaf, dwedwyd wrth y pwyllgor am ddeddfwriaeth newydd a fyddai’n cael ei chyflwyno yng Nghymru y flwyddyn ganlynol a fyddai’n gofyn i landlordiaid gael eu cofrestru. Roedd y pwyllgor yn falch o nodi effaith gadarnhaol camau gorfodaeth wrth ymdrin â HMOs problemus ac ar ddiwedd y drafodaeth -

***PENDERFYNODD*** *y pwyllgor argymell -*

*(a) yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd, bod cyfiawnhad ar gyfer ail-ddynodi cynllun trwyddedu ychwanegol ar gyfer tai amlbreswyliaeth;*

*(b) dylai’r mathau o eiddo a gwmpesir gan y cynllun trwyddedu ychwanegol fod fel y rhestrwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad;*

*(c) dylai’r ardal ddaearyddol a gwmpesir gan y cynllun trwyddedu ychwanegol gael ei chyfyngu i'r Rhyl yn unig;*

*(d) dylai’r amodau i'w gosod fel rhan o’r cynllun trwyddedu ychwanegol fod fel y manylir yn Atodiad 2 o’r adroddiad;*

*(e) Dylid gosod y strwythur ffioedd trwyddedu sy'n gysylltiedig â'r cynllun trwyddedu ychwanegol fel y nodir yn Atodiad 3;*

*(f) derbyn yr Asesiad Effaith ar Iechyd yn Atodiad 4 i'r adroddiad, a*

*(g) nodi’r sylwadau uchod fel ymateb y pwyllgor i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol arfaethedig ar gyfer Tai Amlbreswyliaeth.*

Ar y pwynt hwn (12 a.m.) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth.

## 8 STRATEGAETH STRYDWEDD A PHERFFORMIAD MEWN PERTHYNAS Â BLAENORIAETH STRYDOEDD GLÂN Y CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (HHES) adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) ynghylch effeithiolrwydd y strategaethau sy'n cael eu dilyn i ddarparu'r Flaenoriaeth Gorfforaethol o Strydoedd Glân a Thaclus. Roedd yr elfen hon yn cwmpasu nifer o wahanol adrannau ac roedd gwybodaeth fanwl wedi'i darparu ar berfformiad gwasanaethau mewn meysydd allweddol ynghyd â chamau gweithredu a strategaethau yn y dyfodol.

Dywedodd y Swyddogion fod tystiolaeth bellach yn awgrymu bod Strategaeth Strydlun a pherfformiad y Tîm o ran gwella ymddangosiad parth cyhoeddus y Sir yn dechrau dangos canlyniadau da. Roedd staff gweithredol unigol wedi cael hyblygrwydd i flaenoriaethu eu gwaith eu hunain ac i gymryd perchnogaeth o'u tref/ ardal a oedd wedi arwain atynt yn cymryd balchder yn eu gwaith a chadw eu hardaloedd yn lân ac yn daclus yn rhagweithiol. Cafodd y gwelliant hwn ei gadarnhau gan aelodau'r pwyllgor a dalodd deyrnged i'r staff hynny a oedd yn gweithio yn eu hardaloedd ward penodol. Cydnabuwyd na fyddai'r awdurdod fyth

yn gallu cael gwared ar achosion o faw cŵn na thipio anghyfreithlon yn gyfan gwbl, ond un o'r ffactorau allweddol i lwyddiant yn y maes hwn oedd i reoli'r ymateb i ddigwyddiadau o'r fath yn effeithiol a lle bo'n bosibl cymryd camau gorfodaeth. Hysbysodd y HHES yr aelodau mai'r cam nesaf fyddai ceisio gwella cywirdeb y data sy'n ymwneud ag achosion baw cŵn, sbwriel a thipio anghyfreithlon a chael gwybodaeth fwy cywir am yr amser gwirioneddol a gymerwyd rhwng cafodd y digwyddiad ei riportio a phryd cafodd ei ddatrys.

Ar gais yr aelodau cytunodd y HHES wneud yr ymholiadau canlynol -

- Cael gwybodaeth am fanteision y dull a ddefnyddir gan Gyngor Blackburn mewn perthynas â chyhoeddi Rhybudd Cosb Benodedig.
- Darparu manylion am yr amrywiaeth o ddirwyon a roddir am achosion tipio anghyfreithlon a chostau clirio tipio anghyfreithlon, a
- Archwilio dichonoldeb, a’r sefyllfa gyfreithiol o ran erlyn troseddwyr baw cŵn/ tipio anghyfreithlon hysbys gyda'r bwriad o wneud esiampl o droseddwyr i'r cyhoedd.

Mewn ymateb i bryderon aelodau, cytunodd y HHES hefyd ddefnyddio dull cyson o ran hysbysebu ar briffyrdd - caniatáu hysbysebu tymor byr ar gyfer digwyddiadau cymunedol neu elusennol ar yr amod nad oeddent yn rhwystro'r briffordd neu y credir eu bod yn achosi perygl. Byddai unrhyw fath arall o hysbysebu ar y briffordd yn cael ei ddileu. Pwysleisiodd yr aelodau bod cynnydd mewn arwyddion yn ardal Lôn Parcwr Rhuthun fel enghraifft o leoliad lle mae angen cymryd camau.

O ran toriadau cyllidebol, roedd y HHES yn hyderus fod y toriad arfaethedig o 10% yng nghyllideb y Gwasanaeth ar gyfer 2015/16 yn hylaw heb niwed difrifol i'r gwasanaeth a ddarperir. O ran y Gorchmynion Rheoli Cŵn arfaethedig y mae'r Cyngor wedi ymgynghori arnynt ac yn bwriadu eu cyflwyno, dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y disgwyliwyd deddfwriaeth yn yr hydref a fyddai'n lleddfu ar gyflwyno gorchmynion o'r fath.

***PENDERFYNWYD -*** *yn amodol ar yr uchod:*

*(a)* *cefnogi Parhau gyda'r strategaethau presennol cyn belled ag y bo'n ymarferol, gan gynnwys cael gwared ar hysbysebion sy’n cael eu gosod heb ganiatâd yn y parth cyhoeddus, heblaw am hysbysebion tymor byr ar gyfer digwyddiadau cymunedol / elusennol fel y nodwyd uchod, a*

*(b)* *amsugno unrhyw doriad ariannol yn y dyfodol mewn modd a fydd yn lleihau'r effaith negyddol gyffredinol ar ganfyddiad y cyhoedd o'r parth cyhoeddus.*

**9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynwyd Adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i’r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad am faterion perthnasol.

Yn ystod y drafodaeth amlygodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yr angen am hyblygrwydd yn rhaglen waith y pwyllgor er mwyn cynnwys materion posibl sy'n

codi o'r broses gyllideb rhyddid a hyblygrwydd cyfredol. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at y posibilrwydd o archwilio materion addysg yng ngoleuni'r adolygiadau addysg sy’n mynd rhagddynt. Teimlai'r Cynghorydd Rhys Hughes y byddai budd mewn archwilio cyn Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych a chytunwyd i aros am ganfyddiadau'r ymchwiliad cyn gwneud penderfyniad yn y cyswllt hwnnw.

Cyfeiriodd y Cydlynydd Archwilio at gais i'r pwyllgor ystyried Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl Sir Ddinbych 2015-18. Tynnodd sylw’r aelodau hefyd at yr adroddiad gwybodaeth yn y papurau briffio ar y Rhaglen Rhyl yn Symud Ymlaen a chawsant eu hatgoffa y gallai unrhyw fater sy'n peri pryder iddynt gael ei drosglwyddo i'r pwyllgor i’w archwilio ymhellach. Yn olaf, gofynnwyd i'r pwyllgor gadarnhau ei gynrychiolydd a phenodi dirprwy ar y Grŵp Tasg a Gorffen Tai Fforddiadwy i archwilio amryw faterion yn ymwneud â thai fforddiadwy.

***PENDERFYNWYD -***

*(a) y dylid cymeradwyo’r rhaglen gwaith i’r dyfodol fel y manylwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, a*

*(b) Gofyn i’r cais i ystyried adroddiad ar Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl Sir Ddinbych 2015-18 gael ei drosglwyddo i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion i ystyried a oedd yn fater ar gyfer y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau, a*

*(b) bod y Cynghorwyr Cefyn Williams a Rhys Hughes yn cael eu penodi'n gynrychiolydd a dirprwy gynrychiolydd y Pwyllgor yn y drefn honno ar y Grŵp Tasg a Gorffen Tai Fforddiadwy.*

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau gan gynrychiolwyr y pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00pm.